

# Safonau'r Gymraeg

## Adroddiad Blynyddol 2018/2019



*Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg.*

### 1. Cyflwyniad

Mae Safonau'r Gymraeg yn ei gwneud hi'n yn ofynnol i Gyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr (CBSPenybont) gynhyrchu a chyhoeddi adroddiad blynyddol erbyn 30 Mehefin bob blwyddyn.

Mae'r adroddiad blynyddol hwn ar gyfer 2018/19 yn cwmpasu'r cyfnod rhwng 1 Ebrill 2018 a 31 Mawrth 2019 ac yn amlinellu sut mae'r cyngor yn parhau i gydymffurfio yn ystod y cyfnod hwn yn ogystal â thynnu sylw at unrhyw ddatblygiadau/meysydd cynnydd newydd.

### 2. Sut mae'r Cyngor yn cydymffurfio â Safonau'r Gymraeg

Ers yr adroddiad blynyddol diwethaf (2017/18), nid yw'r cyngor bellach yn cael ei herio ar unrhyw un o'r safonau a gellir gweld unrhyw newidiadau i ddyddiadau cydymffurfio, estyniadau neu amgylchiadau ar gyfer y safonau a gafodd eu herio o'r blaen yn hysbysiad cydymffurfio diwygiedig y cyngor.

#### 2.1 Cydymffurfiaeth Gyffredinol

- Mae'r cyngor yn parhau i fod â swyddog arweiniol sy'n gyfrifol am y Gymraeg
- Mae cyflogeion yn parhau i gael diweddariadau a gwybodaeth reolaidd ynghylch y Gymraeg o ran cydymffurfiaeth, mynediad at adnoddau megis hyfforddiant a chodi proffil yr iaith a'r diwylliant
- Yn ein rhaglen gynefino gorfforaethol mae yna adran benodol ar y Gymraeg a'i phwysigrwydd, sy'n cyfeirio cyflogeion newydd at adnoddau gwybodaeth eraill
- Mae Bwrdd Safonau'r Gymraeg wedi'i ailsefydlu ynghyd â chynllun gweithredu newydd i ddatblygu safonau penodol a monitro cydymffurfiaeth

- Mae'r Gymraeg yn parhau i fod ar gofrestr risg y cyngor er mwyn helpu i fonitro cydymffurfiaeth
- Gall cyflogeion gysylltu â Hyrwyddwyr y Gymraeg o hyd am gymorth a chyngor
- Mae tudalennau'r fewnrwyd i staff a'r mewnlwch e-bost Cymraeg dynodedig ar gael o hyd. Erbyn hyn mae rhai o'r tudalennau mewnrwyd wedi cael eu diweddarau, ond mae yna waith i'w gwblhau eto, mae manylion ar hyn wedi'u cynnwys yn ein cynllun gweithredu newydd
- Mae'r cyngor yn parhau i ddarparu amrywiaeth o hyfforddiant ac adnoddau Cymraeg i staff.
- Gall cyflogeion fanteisio ar ddau gontract cyfieithu gwahanol er mwyn sicrhau ein bod yn ateb y galw, mae ganddynt hefyd fynediad i sawl math gwahanol o gymorth cyfieithu.
- Mae gennym [ddogfen gydymffurfio](#) o hyd sy'n nodi sut byddwn yn cydymffurfio â safonau darparu gwasanaethau, gweithredol, cadw cofnodion, hyrwyddo a llunio polisiau perthnasol. Mae ein [gweithdrefn gwyno](#) hefyd ar gael ar ein gwefan yn ogystal â hen [adroddiadau blynyddol](#).
- Rydym yn parhau i roi gwybodaeth i Gomisiynydd y Gymraeg yn ôl y gofyn.

## 2.2 Safonau darparu gwasanaethau

Yn 18/19 rydym yn parhau i:

- Ymateb i ohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg lle mae angen ateb.
- Cyflwyno fersiynau dwyieithog neu Gymraeg a Saesneg ar wahân o ohebiaeth, heb drin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.
- Cyfarch galwyr yn ddwyieithog dros y ffôn a, lle bo'n berthnasol, parhau i sgwrsio yn Gymraeg nes i'r sgwrs ddod i ben, neu nes mae'r unigolyn yn cael ei drosglwyddo i aelod o staff sy'n siarad Cymraeg (os oes un ar gael), neu i aelod o staff Saesneg ei iaith os nad oes siaradwr Cymraeg ar gael ac mae'r cwsmer yn fodlon gyda hyn.
- Gweithredu un prif rif ffôn (01656 643643) i'r rhai sydd am siarad â rhywun yn Gymraeg neu'n Saesneg. Os nad yw aelod o staff sy'n siarad Cymraeg ar gael, rhoddir gwybod i'r sawl sy'n ffonio, yn Gymraeg, pryd y bydd gwasanaeth o'r fath ar gael. Gall unigolion sydd am siarad â rhywun yn Gymraeg hefyd adael neges yn Gymraeg.
- Ceisio nodi ar ddeunyddiau sy'n cynnwys rhif ffôn CBSPenybont ein bod yn croesawu galwadau yn Gymraeg neu'n Saesneg. Rydym yn parhau i drin y Gymraeg yr un mor ffafriol â'r Saesneg ar ddeunyddiau hysbysebu.

- Gofyn i bobl rydym wedi'u gwahodd i gyfarfod a hoffent ddefnyddio Cymraeg yn y cyfarfod a gwneud yr holl drefniadau angenrheidiol i hwyluso hyn. Yn ôl y pecyn cymorth cyfarfodydd a ddatblygwyd, rhoddwyd y cyfle i 877 o bobl a ddaeth i gyfarfodydd yn ystod 2018/19 i gymryd rhan yn y cyfarfod trwy gyfrwng y Gymraeg.
- Anfon gwahoddiadau dwyieithog i gyfarfodydd cyhoeddus/digwyddiadau CBSPenybont (lle bo'n berthnasol) a chyfarfodydd/digwyddiadau a ariannwyd gan CBSPenybont (50% neu fwy o gyllid). Gofynnir i unrhyw un sy'n dod i gyfarfodydd a hoffent ddefnyddio'r Gymraeg yn ogystal â hysbysu cyfranogwyr bod croeso iddynt ddefnyddio'r Gymraeg (os rhoddir gwybod i ni ymlaen llaw) yn y cyfarfod. Mae'r deunyddiau a ddefnyddir i hysbysebu'r cyfarfodydd/digwyddiadau hyn neu ddeunyddiau sy'n cael eu harddangos mewn cyfarfodydd/digwyddiadau yn ddwyieithog.
- Asesu'r galw am gyrsiau addysg trwy gyfrwng y Gymraeg sy'n agored i'r cyhoedd ac, os oes yna alw, cynnig y cwrs yn Gymraeg.
- Cynhyrchu deunyddiau marchnata, hysbysebu a chyhoeddusrwydd i'r cyhoedd (gan gynnwys datganiadau i'r wasg) yn ddwyieithog. Mae hyn hefyd yn berthnasol i ddogfennau corfforaethol i'r cyhoedd megis polisïau a rheolau yn ogystal â dogfennau ymgynghori. Mae'r dogfennau hyn yn ceisio trin y Gymraeg yr un mor ffafriol â'r Saesneg. Nodir hyn mewn fersiynau Saesneg ar wahân o ddogfennau sydd ar gael yn Gymraeg (lle mae hyn yn ofynnol).
- Cynhyrchu ffurflenni sydd ar gael i'r cyhoedd yn ddwyieithog neu mewn fersiynau Cymraeg a Saesneg ar wahân. Os oes yna fersiynau ar wahân ar gael, byddwn yn nodi ar y fersiwn Saesneg o'r ffurflen bod fersiwn Gymraeg ar gael.
- Ymateb yn Gymraeg i negeseuon Cymraeg ar y cyfryngau cymdeithasol lle mae angen ymateb.
- Newid arwyddion strydoedd, lleoedd a chyfeiriadau (gan gynnwys arwyddion dros dro lle bo'n berthnasol) yn dilyn difrod neu draul arferol, am arwyddion dwyieithog gyda'r testun Cymraeg yn gyntaf.
- Cynhyrchu hysbysiadau swyddogol yn ddwyieithog gan roi'r testun Cymraeg yn gyntaf.
- Sicrhau bod staff derbynfa sy'n siarad Cymraeg yn gwisgo laniardiau i ddangos i gwsmeriaid eu bod yn gallu darparu gwasanaeth Cymraeg.
- Gwneud cyhoeddiadau sain dwyieithog gyda'r cyhoeddiad Cymraeg yn gyntaf.
- Sicrhau bod ceisiadau grant (a'r broses) a thendrau (a chyfweliadau) ar gael yn Gymraeg.
- Hyrwyddo'r gwasanaethau Cymraeg rydym yn gynnig yn ôl yr angen.

- Rydym yn parhau i gynhyrchu ein hagendau a'n cofnodion ar gyfer cyfarfodydd y Cabinet a'r pwyllgorau yn ddwyieithog (safon 41). Mae'r rhain ar gael ar ein gwefan
- Yn ystod y cyfnod hwn rydym wedi parhau i ddatblygu cynnwys a nodweddion dwyieithog ar y wefan yn ôl yr angen (safon 52 a 56)
- Parhau i bostio'n ddwyieithog ar y cyfryngau cymdeithasol ac ymateb i ymholiadau Cymraeg a dderbynnir yn Gymraeg, lle mae angen ymateb. Nid ydym yn postio'n ddwyieithog mewn amgylchiadau lle mae angen cyfathrebu ar frys

Datblygiadau newydd ar gyfer 18/19:

- Rydym bellach yn cydymffurfio â safonau 2,3,5,7 a 21, rydym wedi datblygu cronfa ddata dewisiadau iaith dinasyddion ganolog sy'n hygyrch i gyflogeion drwy fewnwyd y staff. Mae gwaith ar ymarferoldeb y gronfa ddata dewisiadau iaith dinasyddion ganolog wedi'i gwblhau ac rydym yn gweithio i sicrhau bod tanysgrifwyr i Fy Nghyfrif yn cael eu cofnodi ar y system ganolog. Mae'r system hon yn ein helpu i gofnodi a gweithredu ar ddewis iaith pobl
- Rydym bellach yn cydymffurfio â safonau 29 a 29a, felly rydym yn sicrhau, os yw mwy nag un unigolyn yn cael gwahoddiad i gyfarfod (a bod y cyfarfod hwnnw'n ymwneud â lles un neu fwy o'r unigolion a wahoddwyd), ein bod yn gofyn i'r unigolion a ydynt yn dymuno defnyddio'r Gymraeg, ac rydym yn sicrhau bod gwasanaeth cyfieithu ar gael os ydynt yn dymuno defnyddio'r iaith
- Yn ystod y cyfnod dan sylw rydym wedi dechrau drafftio canllawiau i staff i'w helpu i gydymffurfio â safon 1 sy'n cynnwys proses safonol ar gyfer delio â gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg. Mae'r canllawiau hyn yn cynnwys set o ymatebion safonol y gellir eu defnyddio cyn y gellir darparu ymateb llawn
- Ac eithrio peiriannau parcio (estyniad tan fis Awst 2021) rydym wedi sicrhau bod yr holl beiriannau hunanwasanaeth yn gwbl weithredol yn y Gymraeg
- Rydym wedi diwygio ein cyfarwyddyd i'n staff derbynfa yn unol â newidiadau i'n dogfen gydymffurfio ar gyfer safon 64 (sydd bellach yn berthnasol i dderbynfa ein prif swyddfeydd dinesig yn unig) ac ar gyfer cyflwyno safon newydd (66) sy'n berthnasol i bob derbynfa arall, ac wedi rhannu'r cyfarwyddyd â'r staff
- Newid ein harwyddion ar gyfer y newidiadau i safon 64 a 66 er mwyn rheoli disgwyliadau.

## 2.3 Safonau llunio polisiau

Yn 18/19 rydym yn parhau i:

- Defnyddio ein proses Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb (AEG) i sicrhau y rhoddir ystyriaeth i'r Gymraeg wrth adolygu neu lunio polisiau.
- Gofyn i'r rhai sy'n cymryd rhan mewn gweithgareddau ymgynghori, ymgysylltu ac ymchwilio am eu barn o ran a allai penderfyniad polisi (os yw'n berthnasol) effeithio ar y defnydd o'r Gymraeg.
- Ystyried effaith dyrannu grantiau ar y defnydd o'r Gymraeg.

Datblygiadau newydd ar gyfer 18/19:

- Rydym wedi gwneud gwaith pellach i ddatblygu ein proses AEG yn fewnol. Mae hyn wedi cynnwys diweddarau ein pecyn cymorth a gwella ein cofnod canolog o Asesiadau o'r Effaith ar Gydraddoldeb a gwblhawyd gan sicrhau ein bod yn gallu monitro a chofnodi'n gywir yr asesiadau sy'n cael eu cwblhau'n flynyddol.
- Rydym wedi ailsefydlu Bwrdd Safonau'r Gymraeg ac wedi datblygu cynllun gweithredu newydd i ddatblygu safonau penodol a monitro cydymffurfiaeth.
- Mae Cynllun Gweithredu'r Gymraeg yn cynnwys camau a ddatblygwyd o ganlyniad i seminarau Comisiynydd y Gymraeg a gynhaliwyd yn ystod 2018, ac mae'n cynnwys sicrhau bod geiriad perthnasol mewn perthynas ag effeithiau niweidiol a chadarnhaol ar yr iaith yn bodoli'n gyson ym mhob ymgynghoriad llunio polisi a sicrhau bod y canlyniadau'n cofnodi'r effaith niweidiol/gadarnhaol yn yr ymgynghoriad.

## **2.4 Safonau Gweithredu**

Yn 18/19 rydym yn parhau i:

- Darparu polisi ar gyfer defnyddio'r Gymraeg yn y gweithle ar ein mewnrwyd i staff ei ddarllen.
- Galluogi cyflogeion i ddarllen y weithdrefn a'r broses gwyno yn Gymraeg, gan gynnwys dogfennaeth berthnasol.
- Galluogi cyflogeion i ddarllen y weithdrefn a'r broses ddisgyblu yn Gymraeg, gan gynnwys dogfennaeth berthnasol.
- Darparu meddalwedd cyfrifiadurol i staff wirio sillafu a gramadeg.
- Sicrhau bod adrannau/rhyngwyneb perthnasol ar ein mewnrwyd ar gael yn Gymraeg a neilltuo adran Gymraeg ar y fewnrwyd fel adnodd i staff.
- Asesu sgiliau Cymraeg ein cyflogeion yn barhaus.
- Cynnal hyfforddiant 'cwrdd a chyfarch' a chyrsgiau Cwrs Mynediad i staff.
- Darparu pecynnau e-ddysgu i staff am ymwybyddiaeth o'r Gymraeg a diwylliant Cymru yn ogystal â safonau'r Gymraeg.

- Galluogi staff i ddefnyddio llofnodion e-bost a negeseuon 'allan o'r swyddfa' dwyieithog. Rydym yn annog siaradwyr a dysgwyr Cymraeg i nodi eu sgiliau iaith ar eu llofnodion e-bost (trwy ddefnyddio'r logos cydnabyddedig perthnasol).
- Asesu'r sgiliau Cymraeg ar gyfer swyddi newydd a swyddi gwag. Ceir dadansoddiad o'r wybodaeth hon yn Adran 5.
- Sicrhau bod y broses ymgeisio am swyddi a'r ddogfennaeth gysylltiedig ar gael yn Gymraeg a bod y broses Gymraeg yn cael ei thrin yr un mor ffafriol â'r un Saesneg. Mae hyn hefyd yn cynnwys contractau cyflogaeth.
- Gwirio dewis iaith cyflogeion er mwyn darparu gohebiaeth am eu cyflogaeth, a ffurflenni amrywiol sy'n ymwneud â chyflogaeth, yn Gymraeg yn ôl yr angen.
- Sicrhau bod polisiau Adnoddau Dynol perthnasol ar gael yn Gymraeg, a darparu hyfforddiant (e-ddysgu) yn Gymraeg wrth recriwtio a chyfweld, rheoli perfformiad, cynefino a defnyddio'r Gymraeg yn effeithiol mewn cyfarfodydd, cyfweiliadau a gweithdrefnau cwyno a disgyblu (safonau 128 a 129)
- Gosod arwyddion dwyieithog yn ein prif dderbynfa (Swyddfeydd Dinesig), gan roi'r Gymraeg yn gyntaf.
- Rhoi strategaeth bum mlynedd ar waith, ac adrodd amdani yn flynyddol yn un o gyfarfodydd Pwyllgor Cydraddoldeb ein Cabinet.

#### Datblygiadau newydd ar gyfer 18/19:

- Datblygu adnodd asesu i helpu rheolwyr i ddeall sgiliau ieithyddol ac anghenion datblygu eu tîm ymhellach fel y gellir targedu hyfforddiant yn well yn y dyfodol. Cafodd hyn ei dreialu yn yr adran gwasanaethau cwsmeriaid yn ystod 17/18 a'i gyflwyno i dimau derbynfa eraill h.y. Canolfannau Dydd Pen-y-bont ar Ogwr a Threm y Môr yn 18/19
- Mae datblygiad y strategaeth bum mlynedd mewn perthynas â hyfforddiant yn parhau, gyda Lefel Mynediad Blwyddyn 1 a Blwyddyn 2 yn parhau i redeg, a chyflwyno Lefel Sylfaen Blwyddyn 1
- Cynhaliwyd ymgyrch recriwtio lwyddiannus gyda'n Hysgol Uwchradd Gymraeg i benodi prentisiaid Cymraeg eu hiaith, gan arwain at benodi dau brentis Cymraeg eu hiaith i weithio yn yr adran Adnoddau Dynol
- Cynhaliwyd cwrs Cymraeg ar gyfer Busnes am 8 wythnos i'n 7 prentis Cymraeg eu hiaith i'w helpu i ddatblygu eu Sgiliau Iaith Gymraeg ar gyfer y gweithle
- Mae gwaith i ddatblygu ein strategaeth bum mlynedd yn mynd rhagddo gan gynnwys edrych ar gyfleoedd partneriaeth a gwahanol ffyrdd o fesur effeithiolrwydd

gweithgareddau ar gyfer y cyhoedd yn ogystal â chyfleoedd hyfforddi i staff a datblygiadau mewn addysg a gofal plant cyfrwng Cymraeg

- Rydym wedi bod yn llwyddiannus mewn ymgais i ddatblygu lleoliadau gofal plant cyfrwng Cymraeg ar draws y Fwrdeistref Sirol, sefydlwyd grŵp llywio sy'n cynnwys cydweithwyr gofal plant proffesiynol a thrydydd sector i sicrhau darpariaeth effeithiol dros y tair blynedd nesaf.

## **2.5 Safonau Cadw Cofnodion**

Yn 18/19 rydym yn parhau i:

- Gofnodi unrhyw gwynion a dderbynnir am ein cydymffurfiaeth fel rhan o'n system gwynion gorfforaethol.
- Monitro a chofnodi nifer y cyflogeion sy'n mynd ar gyrsiau hyfforddi trwy gyfrwng y Gymraeg a'r Saesneg - gweler Adran 4 am fwy o fanylion.
- Cofnodi sgiliau Cymraeg cyflogeion ac asesiadau o swyddi newydd a swyddi gwag - gweler Adran 5 am fwy o fanylion.

## **3. Cwynion**

- Gwnaed cwyn anffurfiol i'r Adran Briffyrdd ar 18 Ionawr 2018 ynghylch arwyddion anghywir ac argaeledd siaradwyr Cymraeg ar y ffôn. Ymatebwyd i'r gŵyn erbyn 29 Ionawr 2018. Ni chymerwyd unrhyw gamau pellach
- Gwnaed cwyn i Gomisiynydd y Gymraeg ar 1 Mai 2018 mewn perthynas â methiant i ymateb i e-bost Cymraeg. Mae'r ymchwiliad hwn bellach wedi'i gwblhau ac rydym wedi cael hysbysiad cydymffurfio ac mae'n rhaid i ni weithredu erbyn mis Medi 2019. Mae'r hysbysiad cydymffurfio hwn yn nodi bod yn rhaid i ni gynhyrchu canllawiau clir a fydd yn cynorthwyo staff i gydymffurfio â safon 1 a chymryd camau i godi ymwybyddiaeth o safon 1
- Gwnaed cwyn yn uniongyrchol i Gomisiynydd y Gymraeg mewn perthynas ag ymateb i e-bost yn cael ei ddarparu yn Gymraeg ond gydag atodiadau Saesneg yn unig yn ogystal â materion yn ymwneud â thalu treth y cyngor ar-lein a phobl yn cael eu tywys i fersiwn Saesneg y system allanol yn hytrach na'r fersiwn Gymraeg. Mae'r ymchwiliad i hyn yn parhau
- Gwnaed cwyn yn uniongyrchol i Gomisiynydd y Gymraeg mewn perthynas â geiriad Saesneg ar dudalen Gymraeg gwefan y gwasanaethau democrataidd. Ar ôl cael gwybodaeth, daeth y Comisiynydd i'r casgliad nad oedd angen gweithredu ymhellach
- Derbyniwyd cwyn ar 8 Chwefror 2018 gan y comisiynydd ynghylch cyflwyniad ymgynghori i rieni a gynhaliwyd yn Ysgol Gyfun Gymraeg Llangynwyd fel rhan o'r

adolygiad Ôl-16. Yr honiad yw bod y sesiwn ar gael yn Saesneg yn unig. Mae'r ymchwiliad i hyn yn parhau

- Derbyniwyd cwyn ar 12 Chwefror 2019 gan y comisiynydd mewn perthynas ag arwydd cynnal a chadw/gwaith uniaith Saesneg yn cael ei osod ar West Drive, Porthcawl (cyffordd Windsor Road). Cafodd yr arwydd ei dynnu oddi yno yn syth. Darparwyd gwybodaeth gychwynnol i'r Comisiynydd ac ni chymerwyd unrhyw gamau pellach
- Derbyniwyd cwyn ar 12 Chwefror 2019 gan y comisiynydd mewn perthynas â methiant honedig i ddarparu fersiwn Gymraeg o'r ddogfen ymgynghori ar y gwasanaeth bws cymorthdaledig presennol yn Llyfrgell Pencoed. Darparwyd gwybodaeth gychwynnol ac ni chymerwyd unrhyw gamau pellach
- Ni dderbyniwyd unrhyw gwynion o dan y safonau llunio polisi.



#### 4. Sgiliau a hyfforddiant cyflogeion

Sgiliau Iaith Gymraeg ar 31 Mawrth 2019:

Disgrifiad	Ysgolion				Pob gwasanaeth arall			
	Benyw	Gwryw	Cyfanswm	%	Benyw	Gwryw	Cyfanswm	%
<b>Cyfanswm cyfrif pennau</b>	<b>2,490</b>	<b>510</b>	<b>3,000</b>		<b>2,284</b>	<b>667</b>	<b>2,951</b>	
<b>Siarad Cymraeg</b>								
'Ychydig'	327	57	384	12.80%	331	93	424	14.37%
'Eithaf da'	64	17	81	2.70%	38	9	47	1.59%
'Rhugl'	129	20	149	4.97%	91	22	113	3.83%
'Na'	314	67	381	12.70%	1,088	331	1419	48.09%
Dim ymateb	1,656	349	2005	66.83%	736	212	948	32.12%
<b>Darllen Cymraeg</b>								
'Ychydig'	318	56	374	12.47%	342	95	437	14.81%
'Eithaf da'	75	18	93	3.10%	49	19	68	2.30%
'Rhugl'	129	21	150	5.00%	89	21	110	3.73%
'Na'	312	66	378	12.60%	1067	320	1387	47.00%
Dim ymateb	1,656	349	2005	66.83%	737	212	949	32.16%
<b>Ysgrifennu Cymraeg</b>								
'Ychydig'	287	53	340	11.33%	262	61	323	10.95%
'Eithaf da'	65	15	80	2.67%	49	14	63	2.13%
'Rhugl'	123	20	143	4.77%	77	18	95	3.22%
'Na'	358	73	431	14.37%	1,160	361	1521	51.54%
Dim ymateb	1,657	349	2006	66.87%	736	213	949	32.16%

Sylwer:

- Mae'r categori 'Ysgolion' yn cynnwys cyflogeion a gyflogir yn uniongyrchol gan gyrrff llywodraethu. Mae staff cynhwysiant wedi'u cynnwys yn y categori 'Pob gwasanaeth arall'.
- Mae'r categori 'Dim ymateb' yn cynnwys cyflogeion nad ydynt wedi rhoi manylion am sgiliau Cymraeg.
- Mae'r lefelau sgiliau a nodir yn seiliedig ar hunanasesiad.
- Mae gan 211 o gyflogeion swydd mewn ysgol a swydd yn y categori 'Pob gwasanaeth arall' ac maent yn cael eu cyfrif unwaith ym mhob categori.

#### Nifer y cyflogeion a aeth ar gyrsiau Cymraeg rhwng 1 Ebrill 2018 a 31 Mawrth 2019:

- Darparwyd hyfforddiant 'Cwrdd a Chyfarch' i 33 o gyflogeion (tair sesiwn yn ystod 2018/19).
- Mae 37 o gyflogeion wedi cael hyfforddiant 'Cwrs Mynediad' yn 18/19, gan eu galluogi i ddatblygu eu sgiliau iaith ymhellach. Roedd hyn yn cynnwys un dosbarth

Blwyddyn 1, Blwyddyn 2 a Blwyddyn 3, gyda dosbarth yn cael ei gynnal am ddwy awr yr wythnos dros gyfnod o 30 wythnos. Darparwyd hyfforddiant Cymraeg ar gyfer Busnes hefyd i 8 unigolyn dros 10 wythnos yn 2018/19.

- Ni chafwyd unrhyw geisiadau i ddarparu deunyddiau hyfforddiant wyneb yn wyneb yn Gymraeg yn ystod 2018/19.
- Ni chwblhawyd unrhyw fodiwlau e-ddysgu trwy gyfrwng y Gymraeg yn ystod 2018/19.

## 5. Recriwtio a dethol

Nifer y swyddi newydd neu swyddi gwag a hysbysebwyd yn ystod 2018/19 lle'r oedd sgiliau Cymraeg yn:

Hanfodol: 10	Dymunol: 454
--------------	--------------

## 6. Gwasanaethau derbynfya: canolfannau cyswllt a chanolfannau cyswllt ffôn

Y galw am wasanaethau Cymraeg yn y Ganolfan Cyswllt Cwsmeriaid rhwng 1 Ebrill 2018 a 31 Mawrth 2019:

Rhyngweithio wyneb yn wyneb yn Gymraeg	4
Cyfanswm ymweliadau	30,989
Ceisiadau am y Gymraeg fel % o gyfanswm y rhyngweithio a gafwyd	0.01%

Y galw am wasanaethau Cymraeg yn y Ganolfan Cyswllt Ffôn rhwng 1 Ebrill 2018 a 31 Mawrth 2019 (mae cwsmeriaid ar y ffôn yn gofyn am wasanaeth Cymraeg trwy ddewis opsiwn 7 yn ystod y neges ddwyieithog ar ddechrau'r alwad):

Nifer y galwadau yn ystod oriau gwaith arferol (Cymraeg a Saesneg)	161,483
Nifer y galwadau a dderbyniwyd y tu allan i'r oriau gwaith arferol (Cymraeg a Saesneg)	Amherthnasol*
Cyfanswm y galwadau a dderbyniwyd (Cymraeg a Saesneg)	161, 483
Nifer y galwadau yn Gymraeg	95
Ceisiadau am y Gymraeg fel % o gyfanswm y galwadau	0.06%

Mae ceisiadau am gyswllt wyneb yn wyneb wedi aros yn gyson.

Mae ceisiadau teleffoni wedi gostwng yn sylweddol o ganlyniad i ymholiadau ailgylchu a gwastraff yn cael eu trin yn uniongyrchol gan ein partner Kier.

\* Yn 2017/18 newidiodd ein systemau teleffoni ac o ganlyniad mae ein gallu i adrodd ar alwadau (Cymraeg a Saesneg) sy'n cael eu gwneud y tu allan i oriau swyddfa wedi newid. Dim ond yn ddiweddar y cafodd hyn ei ddatrys, gyda chiw ar wahân i ymdrin â galwadau y tu allan i oriau. Nid oedd hyn yn ei le o'r blaen gan nad oedd y system CISCO yn cael ei defnyddio yn CCSU. Y flwyddyn nesaf, dylem allu adrodd ar y ffigurau hyn.

## **7. Aseidiadau o'r Effaith ar Gydraddoldeb a gynhaliwyd rhwng 1 Ebrill 2018 a 31 Mawrth 2019**

Cynhaliwyd chwe Aseiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb llawn i ystyried effaith polisi/strategaeth ar gyfle pobl i ddefnyddio'r Gymraeg mewn ffordd gadarnhaol neu negyddol ac i drin y ddwy iaith yn gyfartal. Ni nodwyd unrhyw effaith ac, o ganlyniad, ni wnaed unrhyw addasiadau i'r polisiau/strategaethau arfaethedig a aseswyd.

## **8. Hyrwyddo a chynyddu ymwybyddiaeth o'r iaith Gymraeg a diwylliant Cymraeg**

Cafodd y digwyddiadau a'r gweithgareddau canlynol eu hyrwyddo gan y cyngor rhwng 1 Ebrill 2018 a 31 Mawrth 2019:

- Diwrnod Santes Dwynwen;
- E-byst mewnol am y gronfa ddata dewisiadau iaith dinasyddion ganolog;
- E-byst mewnol am y pecyn cymorth iaith Gymraeg
- Diwrnod Shwmae Sumae;
- Dydd Gŵyl Dewi;
- Cyfrifon cyfryngau cymdeithasol Cymraeg CBSPenybont;
- Ffeiriau a Gwyliau iaith/diwylliant Cymraeg;
- Ras yr Iaith;
- Cynllun Chwarae Cymraeg (Menter Bro Ogwr);
- Addysg cyfrwng Cymraeg;
- Darpariaeth cyfrwng Cymraeg ar gyfer disgyblion awtistig
- Gofal Plant Cyfrwng Cymraeg

Caiff manylion am y gweithgareddau hyrwyddo hyn eu cofnodi fel rhan o'n proses adrodd ar gyfer ein Strategaeth Iaith Gymraeg. Adroddir am y cyfnod hwn yng nghyfarfod Pwyllgor Cydraddoldeb y Cabinet ym mis Tachwedd 2019.